# Pwyllgor Rheoli Datblygiad

## 15 Hydref 2025

Yn bresennol
Cynghorydd Dr SL Hancock (Cadeirydd)
Cynghorydd S Alderman, Cynghorydd M Bowen, Cynghorydd T Evans, Ms H Gwenllian, Dr M Havard, Mr J Hogg, Mr GA Jones, Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, Dr RM Plummer, Cynghorydd B Price, Cynghorydd V Thomas, Cynghorydd A Tinley a'r Cynghorydd C Williams.

Swyddogion yn bresennol
Ms K Attrill, (Rheolwr Rheoli Datblygu), Ms Heledd Davies (Cyfieithydd), Mr C Felgate (Cyfreithiwr), Mr M Kent (Swyddog Monitro), Mrs S Morris (Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu), Mr A Richards (Prif Swyddog Cynllunio), Mrs C Llewellyn (Cofnodion).

[Cyfarfod rhithiol 10.00am – 11.30am;
11.40am - 12.10pm]

**1. Ymddiheuriadau**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb wrth y Cynghorydd D Clements, Cynghorydd C George, Mrs S Hoss a'r Cynghorydd M James.

**2. Datgeliadau buddiant**

Doedd yna ddim datgeliadau buddiant.

**3. Cofnodion**

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Medi 2025 eu cyflwyno i'w cadarnhau a'u dilysu.

Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd Hancock, wedi'i eilio gan Dr Plummer, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Medi 2025.

**Nodwyd.**

**4. Dyletswyddau'r Aelodau wrth Benderfynu Ceisiadau**

Roedd adroddiad y Cyfreithiwr yn crynhoi swyddogaeth y Pwyllgor oddi fewn i'r gyfundrefn gynllunio, gyda phwyslais penodol ar amcanion a dyletswydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Roedd yn mynd yn ei flaen i amlinellu pwrpas y gyfundrefn gynllunio ac ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu, ac ychwanegodd y Cyfreithiwr bod angen rhoi ystyriaeth hefyd i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol - Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru ar 24 Chwefror 2021 yn ogystal â'i Gynllun Datblygu Lleol 2 ei hun. Roedd yr

Adroddiad hefyd yn nodi bod gan yr Awdurdod ddyletswydd hefyd i gyflawni datblygiad cynaliadwy, ystyriaethau ecolegol oedd yn cynnwys swyddogaeth Deddf Amgylchedd Cymru 2016, ystyriaethau hawliau dynol, canllawiau'r Awdurdod i aelodau ynghylch penderfyniadau yn y Pwyllgor, a hefyd yn gosod allan rhai amgylchiadau lle gellid gosod costau yn erbyn yr Awdurdod mewn apêl. Yn olaf, ychwanegodd y cyfreithiwr nad oedd yr adroddiad yn nodi bod penderfyniadau'r Awdurdod yn agored i'w scrwtineiddio gan y llysoedd ac y medrent fod yn destun adolygiad barnwrol a'i bod felly yn bwysig eu bod yn seiliedig ar y gyfraith.

**Nodwyd.**

**5. Hawl i siarad yn y Pwyllgor**

Hysbyswyd yr Aelodau gan y Cadeirydd bod rhybuddion priodol (cyn y dyddiad sydd wedi ei nodi) wedi dod i law oddi wrth bartïon a oedd yn dymuno defnyddio eu hawl i siarad yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw. Yn unol â phenderfyniad Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2011, wedi'i ddiwygio 16 Mehefin 2021, rhoddir yr hawl i siaradwyr i annerch am bum munud oni bai eu bod wedi siarad ar yr un cais cynt pan roddir tri munud iddyn nhw i gyflwyno gwybodaeth o'r newydd. *(mae'r partïon oedd â diddordeb wedi'u rhestru isod gyferbyn â'u cais (ceisiadau) penodol, ac yn y drefn y buon nhw'n cyfarch y Pwyllgor):*

| **Rhif cyfeirnod** | **Cynnig** | **Siaradwr** |
|---|---|---|
| NP/25/0483/S73<br>Cofnod 6(a) cyfeir | Amrywio amod rhif 4 o NP/23/0527/FUL ar gyfer safle gwerthu bwyd i safle gwerthu hufen iâ/ bar coffi/ brechdanau/ bwyd twym (nid wedi'i ffrïo) a gwerthu alcohol (yn rhannol ôl-weithredol) - Y Llinell Lansger, gerllaw Safle Gwersylla Niwgwl, Niwgwl | Mr M Harris (Ymgeisydd) |
| NP/24/0639/FUL<br>Cofnod 6(b) cyfeir | Newid defnydd clos storio amaethyddol hanesyddol at ddefnydd manège i hyfforddi ceffylau (ôl-weithredol) - East Nolton Farm, Nolton Haven | Mr A Vaughan-Harries (Asiant) |

**6. Adroddiad Ceisiadau Cynllunio**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau manwl yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu, ynghyd ag unrhyw ddiweddariadau a adroddwyd ar lafar ar y diwrnod ac sydd wedi'u cofnodi isod. Penderfynodd y Pwyllgor y ceisiadau yn y modd canlynol *(nodir y penderfyniad ynghylch pob un yn dilyn y manylion a nodir am y cais perthnasol)*:

(a) Cyfeirnod: NP/25/0483/S73
Cynnig: Amrywio amod rhif 4 o NP/23/0527/FUL ar gyfer safle gwerthu bwyd i safle gwerthu hufen iâ/ bar coffi/ brechdanau/ bwyd twym (nid wedi'i ffrïo) a gwerthu alcohol (yn rhannol ôl-weithredol)
Lleoliad: Y Llinell Lansger, gerllaw Safle Gwersylla Niwgwl, Niwgwl, Hwlffordd.

Atgoffwyd yr Aelodau bod y cais cynllunio blaenorol ar gyfer y safle wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor fis Mawrth 2024. Roedd y cais gerbron y Pwyllgor yn gais Adran 73. Roedd Adran 73 o Ddeddf 1990 yn caniatáu ceisiadau am ganiatâd cynllunio heb gydymffurfio ag amodau wedi'u gosod cynt ar ganiatâd cynllunio oedd yn dal i fodoli. Pan fyddai cais Adran 73 yn cael ei ganiatáu ei effaith mewn gwirionedd oedd caniatáu caniatâd cynllunio newydd.

Roedd y cais gwreiddiol yn ymwneud â newid defnydd o floc toiledau i fod yn siop hufen ia a choffi. Fel rhan o'r addasu roedd toiled hygyrch a lle parcio i'r anabl i'w darparu. Roedd y cais gerbron y Pwyllgor yn chwennych diwygio'r datblygiad i alluogi gwerthiant mân-werthu ehangach yn cynnwys alcohol a bwyd twym (ond nid wedi'u ffrio). Roedd hefyd yn chwennych diwygio manylion y goleuadau allanol o'r hyn a gymeradwywyd cynt trwy ollwng amod yn ymwneud â NP/23/0527/FUL. Roedd addasiad bychan i arwydd y man parcio anabl hefyd wedi'i gynnwys yn y cynlluniau.

Roedd y cais yn cael ei ystyried yn dderbyniol ac roedd y Swyddogion yn medru ei gefnogi. Ond, fodd bynnag, oherwydd mai effaith y cymeradwyo oedd caniatáu caniatâd newydd, roedd yn ofynnol ail-edrych ar yr ystyriaethau polisi oedd yn berthnasol i'r caniatâd gwreiddiol, ac ar ddiweddariad polisi Llywodraeth Cymru ar berygl llifogydd. Roedd y caniatâd gwreiddiol mewn grym tan 2034 - am nad oedd yr ystyriaethau oedd yn cefnogi'r terfyn amser hwn heb newid, roedd yr amod hwn yn cael ei argymell drachefn. Ystyriwyd bod yr amodau, yn ymwneud ag argaeledd y toiled hygyrch ac oriau gweithredu'r adnodd hwnnw a'r busnes cyfan hefyd, yn angenrheidiol i fod yn eu lle.

Argymhellwyd cymeradwyo'r cais yn ddibynnol ar yr amodau oedd wedi'u gosod allan yn yr adroddiad. O ganlyniad i drafodaethau gydag Ecolegydd

yr awdurdod a'r swyddog Polisi Wybrennau Tywyll, cynigiwyd amod ychwanegol, ynghyd â diwygiad i amod wyth, yn ymwneud â goleuo.

Yn y cyfarfod atebodd y Cyfarwyddwr nifer o gwestiynau gan Aelodau. Cadarnhaodd bod seddau allanol yn cael eu hystyried yn eiddo symudol er nad oedd eu gosod ar y banc cerrig crynion gyferbyn wedi'i awdurdodi a gallai fod yn fater o orfodaeth; roedd oriau agor y toiled anabl yn adlewyrchu'r rheiny oedd yn y cytundeb cyfreithiol roedd yr ymgeisydd wedi'i lofnodi gyda Cyngor Sir Penfro (CSP), tra bo amod yn ymwneud â rheoli gwastraff, oedd wedi'i gynnwys, yn cael ei ystyried yn ddigonol. O ran amod tri oedd yn cyfyngu'r defnydd o'r safle tan 01/02/2034, esboniodd bod y terfyn amser hwn hefyd wedi'i gymryd o'r cais blaenorol a oedd yn caniatáu i fusnesau weithredu am ddeng mlynedd, gan gofio fod CSP wedi cynghori y bydden nhw'n cynnal y ffordd tan 2030.

Anerchwyd y Pwyllgor gan yr ymgeisydd, Mike Harris, wedyn. Mynegodd ei werthfawrogiad o'r Pwyllgor am roi caniatâd i addasu'r adeilad toiled gwag yn 2024 gan nodi bod yr adfail hwn, a oedd yn ddolur i'r llygaid, wedi'i droi'n fusnes llwyddiannus yn cyflogi dwsin o bobl yn anterth y tymor. Roedd y bar coffi ar agor bob dydd rhwng 8am a 10pm, gan alluogi'r toiled i fod ar agor am yn hirach nad oedd yn y gorffennol, ac roedd yn boblogaidd iawn ymhlith ymwelwyr a thrigolion lleol; byddai felly yn aros ar agor tan ganol mis Rhagfyr, ac yn cau ym misoedd Ionawr a Chwefror ar gyfer gwyliau a gwaith cynnal a chadw. Dywedodd fod y bar coffi trwyddedig hefyd wedi bod yn fodd o lenwi'r gwacter cymunedol anffodus a achoswyd o ganlyniad i'r tân yn y dafarn, ac roedd wedi ymestyn y tymor yn y maes gwersylla, a hynny yn ei dro wedi bod o fantais i fusnesau lleol a chyflogi staff. Aeth Mr Harris yn ei flaen i ddweud iddo weithio gyda'r swyddogion i addasu'r goleuo er mwyn diogelu'r wybren gyda'r nos a bywyd gwyllt. Roedd felly yn gofyn i'r Aelodau gefnogi'r diwygiad S73 a fyddai'n gwneud yr amodau cynllunio yn unol â'r drwydded mangre ganiatawyd gan CSP, a sicrhau bod y lleoliad yn gwasanaethu ymwelwyr a thrigolion lleol fel ei gilydd, yn unol ag amcanion y Parc Cenedlaethol. Terfynodd trwy ddiolch i'r swyddogion am eu hagwedd gadarnhaol, gan bwysleisio bod trawsnewidiad yr adeilad wedi bod yn gyfan gwbl gadarnhaol, yn gymdeithasol ac yn economaidd, a'i fod yn gobeithio y byddai'r Pwyllgor yn cefnogi'r cam bychan ond pwysig hwn.

Mewn ateb i gwestiynau gan Aelod cadarnhaodd Mr Harris nad oedd yna allwedd RADAR ar gyfer y toiled anabl ac felly dim ond yn ystod oriau agor y gellid ei ddefnyddio, a chan mai dim ond cerddoriaeth acwstig fyddai'n cael ei berfformio'n achlysurol ar y maes gwersylla, doedd trwydded Rhybudd Achlysuron Achlysurol (RhAA) ddim yn arferol yn angenrheidiol. Darbwyllodd yr Aelodau nad oedd y gerddoriaeth yn swnllyd a'i fod yn addas ar gyfer teuluoedd.

Roedd yr Aelodau yn cefnogi'r amodau a nodwyd i reoli'r newidiadau a'r rhai fyddai'n aros yn eu lle ers y caniatâd blaenorol a fyddai'n diogelu nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol, ac roedden nhw'n falch y byddai'r cais yn dylanwadu'n gadarnhaol ar yr economi. Cafodd yr argymhelliad i gymeradwyo, gydag amodau gan gynnwys y rhai a ychwanegwyd ac a ddiwygiwyd yn y cyfarfod, ei gynnig gan Dr Plummer a'i eilio gan y Cynghorydd Price. Codwyd cwestiwn ynghylch sbwriel a rheoli gwastraff ac awgrymwyd gosod amod ynglŷn â hyn. Atebodd y Cyfarwyddwr trwy ddweud bod yna amodau yn ymwneud â gwastraff yn y cais blaenorol ac roedd yna ymgynghori wedi bod gyda swyddogion rheoli gwastraff CSP ac roedden nhw wedi'u bodloni. Felly'r cynnig oedd gosod yr amod hwnnw yn rhan o'r cais hwn fel amod 12. Am nad oedd cwynion ynghylch rheoli gwastraff wedi dod i law dywedodd na fyddai gosod amod pellach yn rhesymol, a chytunodd y Cyfreithiwr tra byddai o bosib yn bosibl llunio amod o'r fath, roedd penderfynu p'un a fyddai hynny'n rhesymol neu beidio yn fater o farn cynllunio. Cafodd y cynnig ei roi gerbron a'i eilio ac o'i roi i bleidlais fe gariodd y dydd.

**Penderfyniad: Cymeradwyo'r cais, yn amodol ar amodau yn ymwneud ag amseriad, yn unol â chynlluniau a dogfennau wedi'u cymeradwyo, rhoi'r gorau i'r defnydd a gwaredu'r adeilad erbyn 01/02/2034, maint a defnydd o'r llawr mân-werthu, oriau agor, agor y toiled anabl, goleuo, draenio dŵr wyneb, plannu, parcio anabl a storio gwastraff a rheoli.**

(b) Cyfeirnod: NP/24/0639/FUL
Cynnig: Newid defnydd clos storio amaethyddol hanesyddol at ddefnydd manège i hyfforddi ceffylau (ôl-weithredol)
Lleoliad: East Nolton Farm, Nolton Haven, Hwlffordd

Adroddwyd bod y cynnig yn cynnwys newid defnydd o glos storio amaethyddol hanesyddol i fod yn manège hyfforddi ceffylau (ôl-weithredol) mewn cornel o gae mawr ar dir fferm i'r de-ddwyrain o Noltwn a phellter byr i gyfeiriad y de o Stablau Noltwn.

Roedd y swyddogion o'r farn fod y cynllun arfaethedig o ran dyluniad, graddfa a lleoliad yn dderbyniol. Byddai'r cynnig wedi'i guddio'n dda o'r tirlun agos ac ehangach ac ni fyddai'n niweidio bioamrywiaeth na nodweddion arbennig y fro. Byddai rhaid wrth blannu ychwanegol o dan amod pedwar a byddai hynny o fudd i gefnogi bioamrywiaeth.

Roedd y datblygiad ar dir a glustnodwyd gyda'r gorau a'r mwyaf hyblyg (BMV) fel tir amaethyddol. Ond, yr un pryd, cydnabuwyd y byddai diwygio lleoliad y manège hwn i leoliad lle nad oedd ansawdd y tir amaethyddol cystal o ran ansawdd, yn golygu mwy o ymwthio gweledol oddi fewn i

dirwedd y Parc Cenedlaethol. Roedd y datblygiad hefyd yn cael ei weld fel un yr oedd angen lleoliad cefn gwlad ar ei gyfer a'i fod yn cefnogi busnes twristiaeth cyfredol – roedd y rhain yn ystyriaethau perthnasol oedd yn gorbwyso'r polisi Cynllunio Cenedlaethol o ddiogelu tir amaethyddol BMV yn yr achos penodol hwn. Mewn ymateb i gwestiwn nodwyd na fyddai'r llecyn fyddai'n cael ei golli yn ddim mwy na darn bychan o'r cae cyfan.

O'r herwydd roedd y cais yn cael ei argymell i'w gymeradwyo yn ddibynnol ar amodau priodol.

Anerchwyd y Pwyllgor wedyn gan yr asiant, Mr Andrew Vaughan-Harries. Cadarnhaodd mai maint y manège oedd 1155 o fetrau sgwâr gan ddweud nad oedd hynny yn sylweddol. Cynghorodd fod yr eiddo yn ffarm waith oedd yn cynnwys nifer o nodweddion hamdden hefyd a'i bod ar un adeg yn ganolfan geffylau o bwys. Nododd bod yna lwybrau yn dal i gael eu defnyddio i ferlota ac y byddai'r manège yn cael ei ddefnyddio i gynhesu'r ceffylau ac ymarfer neidio. Nododd bod y llecyn cynt wedi'i ddefnyddio i gadw tractorau a silwair ond byddai symud y defnydd i dir llai ffafriol yn golygu y byddai'n fwy amlwg o lawer. Roedd ar hyn o bryd wedi'i guddio'n dda ac y byddai hyn yn cael ei gynyddu trwy blannu ychwanegol i lenwi unrhyw fylchau. Nodwyd nad oedd yna gynlluniau ar gyfer goleuo ac roedd yr hawlen Draenio Cynaliadwy eisoes wedi'i chaniatáu gan CSP.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod esboniodd yr Asiant y byddai'r clawdd presennol yn cael ei gryfhau gan rywogaethau brodorol a'r banc yn cael ei blannu i sicrhau mwy o fioamrywiaeth. Nododd bod dros 10,000 o goed eisoes wedi'u plannu ar y fferm o dan Gynllun Rheoli Coetiroedd Llywodraeth Cymru.

Roedd yr Aelodau o'r farn na fyddai colli 1ha o gae 10ha yn ddim mwy na cholled fechan o dir amaethyddol BMV, ac o ystyried pa mor agos oedd i'r ffermdy, lle'r oedd yna fenter wledig wedi'i sefydlu, roedd hyn yn benderfyniad rhesymol. Croesawyd hefyd y plannu i gefnogi bioamrywiaeth. Cafodd yr argymhelliad i gymeradwyo ei roi gerbron gan y Cynghorydd Alderman, a'i eilio gan Dr Plummer ac fe'i cariwyd yn y bleidlais.

**Penderfyniad: Cymeradwyo'r cais gydag amodau yn ymwneud ag amseru, yn unol â chynlluniau a dogfennau wedi'u cymeradwyo, goleuo a chynllun plannu.**

[Gohiriwyd y Pwyllgor rhwng 11.30am a 11.40am.]

(c) Cyfeirnod: NP/25/0267/S73
Cynnig: Amrywio amod rhif 2 o NP/21/0786/FUL
Lleoliad: Triangle Village Store, 9, Angle Village, Angle, Penfro

Adroddwyd bod Triangle Store wedi'i leoli ar brif stryd Angle oddi fewn i'r Ardal Gadwraeth. Rhoddwyd caniatâd cynllunio yn 2023 o dan NP/21/0786/FUL ar gyfer 'Ailwampio llawr gwaelod y stôr/caffi. Estyniad deulawr yn y cefn yn lle'r estyniad un llawr. Fflat dwy ystafell wely arfaethedig ar y llawr cyntaf'. Roedd y cais presennol ar gyfer paneli solar ychwanegol a dau olau to ar y trychiad blaen (gogledd-ddwyrain). Roedd y cynllun gwreiddiol yn cynnwys ailosod fframwaith y to yn gyfangwbl.

Esboniodd y Rheolwr Rheoli Datblygiad taw ar ôl dechrau ar y gwaith adeiladu fe ddaeth yn amlwg nad oedd y cynlluniau yn cael eu gweithredu o ran fframwaith y to, ac roedd nifer o oleuadau to a phaneli solar yn cael eu chwennych nawr nad oedden nhw wedi'u caniatáu yn wreiddiol. Yn dilyn sylwadau gan Swyddog Cadwraeth Adeiladau'r Awdurdod roedd y cynllun wedi'i addasu i leihau eu heffaith. .

Roedd y cynnig yn cael ei ystyried yn dderbyniol ac roedd yn bosib i'r Swyddogion ei gefnogi. Ond, fodd bynnag, oherwydd mai effaith rhoi caniatâd oedd rhoi caniatâd o'r newydd, bu rhaid ailystyried y caniatâd gwreiddiol o ran ystyriaethau polisi a diweddariadau polisi Llywodraeth Cymru ar berygl llifogydd.

Roedd y safle yn gorwedd oddi fewn i Barth Llifogydd C2 perygl uchel o ran llifogydd llanw ac afonol pan roddwyd y caniatâd gwreiddiol ac roedd hwn nawr yn cael ei nodi fel Parth 3 ar y mapiau llifogydd diweddaraf. Roedd y safle hefyd yn gorwedd oddi fewn i Ardal Rheoli Newid Arfordirol. Tra roedd y cynnig llawr gwaelod o siop a chaffi yn ddefnydd llai bregus ac yn cydymffurfio â chyfarwyddyd TAN 15 a Chynllun Datblygu Lleol yr Awdurdod (CDLl) 2, roedd y defnydd preswyl llawr cyntaf yn cael ei ystyried yn ddefnydd llawer mwy bregus. Roedd yr elfen hon, er nad oedd yn ofynnol cael caniatâd am ei fod yn cael ei ystyried yn ddatblygiad wedi'i ganiatáu, yn groes i gynnwys polisi CDLl 2 ac yn groes i TAN 15.

Yn dilyn cynlluniau wedi'u diwygio ddaeth i law yn ystod paratoi'r cais gwreiddiol roedd y cynnig yn cael ei ystyried yn dal yn gydnaws â'r polisïau uchod, ac yn dderbyniol o ran gofynion dylunio a chadwraeth y Parc Cenedlaethol. Roedd y caniatâd hwn, oedd yn dal mewn grym, ac oedd wedi'i weithredu yn ffurfio ystyriaeth berthnasol bwysig. Yr unig newid i'r cais gwreiddiol oedd y paneli solar a'r goleuadau to cadwriaethol, na fydden nhw o ran eu hunain yn codi unrhyw beryglon na fydden nhw wedi'u hystyried cynt. Adroddwyd yn y cyfarfod bod Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi cadarnhau yn dilyn ymgynghoriad pellach nad oedd ganddyn nhw wrthwynebiad i'r cynllun.

Gwnaed cais hefyd yn y cyfarfod i ddiwygio amod 19 i'w gwneud yn ofynnol i osod synwyryddion awtomatig cyfnos i wawr ar y llenni tywyll er mwyn delio â phryderon y Cyngor Cymuned ynghylch llygredd golau.

Roedd y cais yn rhannol ôl-weithredol ac argymhellwyd dirprwyo'r mater i'r swyddogion i'w gymeradwyo, ar yr amod na fyddai ystyriaethau perthnasol newydd yn cael eu codi o ganlyniad i'r hysbyseb yn nodi gwyriad oddi ar y CDLl.

Ar ôl derbyn eglurhad gan y swyddog ynghylch nifer o bwyntiau yn ymwneud ag agweddau o berygl llifogydd, a chael sicrwydd ynghylch diogelu cymeriad a golwg yr ardal gadwraeth, cafodd yr argymhelliad i ddirprwyo rhoi cymeradwyaeth ei gynnig gan Mr Hogg, a'i eilio gan Dr Havard, ac fe'i cariwyd ar ôl ei roi i bleidlais.

**Penderfyniad: Dirprwyo'r cais i'r Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu i roi caniatâd ar yr amod na cheir ystyriaethau perthnasol newydd yn dilyn hysbysebu'r mater fel gwyriad oddi ar Gynllun Datblygu Lleol 2, ac yn amodol ar amodau yn ymwneud ag amseriad, yn unol â chynlluniau a dogfennau wedi'u cymeradwyo, unedau awyru/echdynnu, draenio dŵr wyneb, Cynllun Rheoli Amgylchedd Adeiladu, diogelu coed a chloddiau, sgrin preifatrwydd, cynllun ymgilio rhag llifogydd, trin ffiniau, oriau gweithredu'r caffi/siop, defnydd o'r ardd, gwaredu gwastraff a storio, goleuadau to, wynebau allanol a gorffeniadau, goleuo, cynllun hyrwyddo bioamrywiaeth a llenni tywyllwch.**

## 7. Apeliadau

Adroddodd y Rheolwr Rheoli Datblygu am saith o apeliadau (yn erbyn penderfyniadau cynllunio'r Awdurdod) sydd ar hyn o bryd wedi'u cofrestru gyda Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru gan fanylu ynghylch ble mae pob un o'r saith wedi cyrraedd o ran y broses apêl.

Adroddwyd am un penderfyniad ynghylch Nettie's Lodge, Happy Acre, Lydstep, (EC21/0201) a gafodd ei wrthod. Nodwyd bod yna gais wedyn i addasu sgubor yn annedd ar y safle wedi'i gymeradwyo a bod y gwaith ar y gweill.

Adroddwyd hefyd am y dyfarniad ynghylch yr adolygiad barnwrol o benderfyniad yr Awdurdod i roi caniatâd ar gyfer canolfan gweithgareddau awyr agored yn yr Hen Ddepo Bysiau yn Nhrewyddel. Dyfarnodd y Barnwr yn erbyn Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar ddau o'r pum achwyniad a gyflwynwyd. Tra nad oedd yr heriau a gyflwynwyd gerbron yr Adolygiad Barnwrol yn ystyried teilyngdod y penderfyniad cynllunio ei hun, ond yn hytrach y modd roedd y penderfyniad wedi'i

benderfynu, roedd y caniatâd cynllunio wedi'i ddiddymu yr un fath, a byddai rhaid i'r Awdurdod ddelio â'r penderfyniad cynllunio eto maes o law.

**Nodwyd.**

**8. Gorchymyn Diogelu Coed 167- White Horses, Saundersfoot**

Adroddwyd bod Gorchymyn Diogelu Coed TPO167 wedi'i weini gan yr Awdurdod ar 5 Awst 2025. Y terfyn amser i gyflwyno gwrthwynebiadau gan bartïon wedi'u heffeithio oedd 2 Medi 2025, a doedd yna'r un wedi'i dderbyn. Cadarnhawyd y TPO felly. Adroddwyd hyn i'r Aelodau fel gwybodaeth yn unig a doedd dim angen unrhyw benderfyniad.

**Nodwyd.**

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2025 heb eu diwygio. |